Rhif: **WG21318**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghori

# Cais am Dystiolaeth

Adolygu'r Polisi Presennol ar Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd

Dyddiad cyhoeddi: **29 Ebrill 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **24 Mehefin 2014**

## Trosolwg

Ar hyn o bryd, polisi Llywodraeth Cymru yw peidio â chefnogi na gwrthwynebu polisi Llywodraeth y DU ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA), ac nid ydym ychwaith yn cefnogi unrhyw opsiwn arall ar gyfer ei waredu.

Rydym yn lansio'r cais hwn am dystiolaeth er mwyn gofyn i geisio barn randdeiliaid ledled Cymru amdan y polisi cyfredol Llywodraeth Cymru a pha opsiynau y dylem eu hystyried pe baem yn penderfynu cefnogi polisi ar waredu GUA.

## Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymatebion drwy'r e-bost neu'r post, gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd i'w gweld ar ddiwedd y cais hwn am dystiolaeth.

Mae'r cais am dystiolaeth a'r ffurflenni ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

For further information:

Y Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: RPPmailbox@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 3235

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2014

## Cyflwyniad

1. Ar hyn o bryd, polisi Llywodraeth Cymru yw peidio â chefnogi nac ychwaith wrthwynebu polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) yn ddaearegol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw ffordd arall o gael gwared ar GUA ychwaith. Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn ichi gyflwyno sylwadau am bolisi presennol Llywodraeth Cymru, ac am yr opsiynau y dylai eu hystyried pe bai'n penderfynu cefnogi polisi gwaredu ar gyfer GUA. Mae'r cefndir i bolisi presennol Llywodraeth Cymru a'r rhesymau pam y gallai adolygiad fod yn briodol yn cael eu hamlinellu yn y cais hwn am dystiolaeth.

## Y Cefndir

2. Ers hanner canrif a mwy, mae gwaddol sylweddol o GUA wedi cronni yn y Deyrnas Unedig. Deilliodd i ddechrau o raglenni niwclear milwrol ac yna o brosesau cynhyrchu ynni mewn gorsafoedd pŵer niwclear ac o waith cysylltiedig i gynhyrchu a phrosesu tanwydd niwclear. Mae'n ganlyniad hefyd i'r deunyddiau ymbelydrol a ddefnyddir ym myd diwydiant, ym maes meddygaeth ac ym maes ymchwil. Mae GUA yn cynnwys gwastraff lefel uchel (GLU), a gynhyrchir drwy ailbrosesu gweddillion tanwydd; gwastraff lefel ganolradd (GLG) megis y cladin ar rodenni tanwydd, rhannau o adweithyddion, slwtsh hidlo etc; a gwastraff lefel isel nad yw opsiynau gwaredu eraill yn addas ar ei gyfer. Mae peth o'r gwastraff hwn wedi'i brosesu eisoes a'i storio'n ddiogel dros dro ar safleoedd niwclear. Fodd bynnag, ni fydd llawer o'r deunyddiau hyn ond yn troi'n wastraff yn ystod y ganrif neu ddwy nesaf wrth i weithfeydd sy'n bodoli eisoes gyrraedd diwedd eu hoes a chael eu datgomisiynu, ac wrth i safleoedd niwclear gael eu glanhau'n ddiogel.

3. Yn ogystal, er mwyn lleihau allyriadau carbon deuocsid ac er mwyn sicrhau y bydd modd cynhyrchu digon o drydan, mae’r DU yn datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear. Bydd y gorsafoedd pŵer niwclear newydd hyn hefyd yn creu GUA.

4. Gall rhai mathau o GUA barhau'n ymbelydrol, ac felly'n niweidiol, am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Mae dulliau modern a diogel o storio'r deunydd hwn dros dro yn addas yn y tymor byr neu'r tymor canolig, ond o'i storio gan ddefnyddio'r dulliau hyn, mae angen trefnu bod y deunydd yn cael ei fonitro'n barhaus. Mae'n debygol hefyd y bydd angen ail-becynnu’r gwastraff a'i reoli ymhellach ymhen amser er mwyn sicrhau na fydd yn peryglu iechyd pobl na'r amgylchedd mewn unrhyw fodd.

5. Hyd yma, nid yw'r DU wedi dod o hyd i ateb terfynol ar gyfer gwaredu GUA a fyddai'n golygu na fyddai angen unrhyw ymyriadau yn y dyfodol ac a fyddai'n sicrhau hefyd na fydd unrhyw lefelau niweidiol o ymbelydredd yn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

6. Yn 2003, sefydlodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig (y "Llywodraethau") y Pwyllgor annibynnol ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol

(CoRWM) er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli a gwaredu'r GUA sy'n bodoli eisoes a'r GUA y disgwylir iddo ddeillio o orsafoedd pŵer niwclear presennol y DU ("gwastraff gwaddol"). Cyflwynodd CoRWM adroddiad[1] i'r Llywodraethau yn 2006 yn argymell y dylid defnyddio dulliau gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff gwaddol ymbelydrol. Argymhellwyd hefyd y dylid rhoi rhan i gymunedau yn hyn o beth, a hynny ar sail yr egwyddor o wirfoddoli a datgan eu bod, o bosibl, yn barod i gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD). Argymhellodd CoRWM hefyd y dylid defnyddio dulliau storio diogel dros dro ar gyfer deunydd o'r fath ac y dylid hefyd wneud rhagor o waith ymchwil a datblygu. Cadarnhaodd CoRWM yn 2013 ei fod o blaid dulliau gwaredu daearegol[2]. Yn 2010, wrth ymateb i ymgynghoriad yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) am y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Ynni, a hefyd mewn datganiad am ei safbwynt ar wastraff o orsafoedd pŵer newydd, cyflwynodd CoRWM ei sylwadau ynghylch pa mor addas oedd cynigion yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ar gyfer gwaredu daearegol.[3] [4]

**Ymateb y Llywodraethau i'r argymhellion a wnaed gan CoRWM yn 2006**

7. Ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn 2007[5], cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon Bapur Gwyn ym mis Mehefin, *Managing Radioactive Waste Safely: a Framework for Implementing Geological Disposal*[6]. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn y Papur Gwyn ei bod yn ffafrio polisi gwaredu daearegol a fyddai'n seiliedig ar wirfoddoli ac ar bartneriaeth. Byddai'n bwrw ymlaen â gwaredu daearegol ochr yn ochr â dulliau storio diogel dros dro a gwaith ymchwil a datblygu.

8. Roedd Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon yn cefnogi'r rhaglen a amlinellwyd yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel.

---

[1] CoRWM *Managing our Radioactive Waste Safely: CoRWM's Recommendations to Government* Gorffennaf 2006

[2] Statement on Geological Disposal: The Committee on Radioactive Waste Management's (CoRWM's) recommendations on the benefits of geological waste disposal. Cyhoeddwyd 25 Gorffennaf 2013 https://www.gov.uk/government/publications/statement-on-geological-disposal

[3] Response from the Committee on Radioactive Waste Management to the Government consultation on the Draft National Policy Statements for Energy Infrastructure (dogfen 2748 CoRWM, 2 Mawrth 2010)

[4] CoRWM Statement of its position on new build wastes (dogfen 2749 CoRWM, 2 Mawrth 2010)

[5] Defra, DTI a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon: *Managing radioactive waste safely: a framework for implementing geological disposal.* Mehefin 2007.

[6] Defra, BERR a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon: *Managing radioactive waste safely: a framework for implementing geological disposal.* Mehefin 2008

9. Ni chafodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2007 ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel, nac ychwaith y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2008, eu noddi gan Lywodraeth yr Alban ac mae hi'n gweithredu ei pholisi ei hun ar reoli GUA.[7] Polisi Llywodraeth yr Alban yw y dylai gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd gael ei reoli yn yr hirdymor mewn cyfleusterau yn agos i'r wyneb. Dylid lleoli'r cyfleusterau hynny mor agos ag y bo modd i'r safle lle cynhyrchir y gwastraff. Bydd angen i ddatblygwyr ddangos sut y bydd y cyfleusterau'n cael eu monitro a sut y gellid mynd i 'nôl y pecynnau gwastraff, neu'r gwastraff ei hun.

***Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru***

10. Ym Mhapur Gwyn 2008, ni fynegodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd ar y pryd) safbwynt y naill ffordd na'r llall ar waredu daearegol ac nid oedd yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r polisi. Dywedodd ar yr un pryd ei bod yn bwriadu parhau i chwarae rhan lawn yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel er mwyn sicrhau bod gwastraff ymbelydrol yn ddiogel yn y tymor hir, bod unrhyw fframwaith a fabwysiedir yn diwallu anghenion Cymru mewn modd priodol, a bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau yn y maes hwn. Roedd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi argymhellion CoRWM ynghylch storio gwastraff yn ddiogel dros dro, ynghylch sicrhau bod storfeydd o'r fath yn ddiogel rhag ymosodiadau gan derfysgwyr, a'r angen am waith ymchwil a datblygu fel y bo modd rheoli a storio gwastraff yn y ffordd orau bosibl.

11. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd y dylai unrhyw gymuned yng Nghymru a oedd am gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb mewn cynnig lle ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol gyflwyno'r Datganiad hwnnw i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pe bai hynny'n digwydd, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati bryd hynny i ystyried ei safbwynt am y rhaglen gwaredu daearegol a'r Datganiad penodol o Ddiddordeb.

12. Dyna yw polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd hefyd.

**Ymgynghoriad gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU**

13. Ar ôl i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi yn 2008, mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda thri awdurdod lleol yng ngorllewin Cumbria ar ôl cael Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer dwy ardal (Copeland and Allerdale). Fodd bynnag, daeth y trafodaethau hynny i ben ym mis Ionawr 2013 ar ôl pleidlais lle penderfynodd Cyngor Sir Cumbria beidio â bwrw ymlaen â'r broses o ddewis safleoedd o dan y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel.

14. Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i waredu daearegol ac o'r farn mai dyma'r polisi priodol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddiogel yn y tymor hir. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn parhau i

[7] Llywodraeth yr Alban: *Scotland's Higher Activity Radioactive Waste Policy 2011.* Ionawr 2011

ffafrio proses lle mae safleoedd yn cael eu dewis drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau sydd â diddordeb.

15. Ar ôl i'r trafodaethau am ddewis safleoedd ddod i ben yng Nghumbria, mae DECC yn ystyried cyflwyno newidiadau i'r broses dewis safleoedd, a chyhoeddodd bapur ymgynghori ym mis Medi 2013[8]. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ym mis Rhagfyr 2013.

16. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr ymgynghoriad yn trafod materion yr oedd gan bobl Cymru yr hawl i gael gwybod amdanynt, ac y dylent gael cyfle i gyflwyno sylwadau yn eu cylch. O'r herwydd, cyhoeddodd y papur ymgynghori yng Nghymru. Roedd hynny hefyd yn briodol am fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan o'r rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Cafwyd chwe ymateb o Gymru i'r ymgynghoriad.

17. Aeth Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon ati i ymgynghori hefyd.

**Rhesymau o blaid cynnal adolygiad posibl o bolisi Llywodraeth Cymru**

18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y materion isod yn awgrymu y byddai'n briodol iddi fynd ati i adolygu ei pholisi presennol ar waredu GUA.

- Yn 2008, er ei bod yn derbyn bod penderfyniadau ar adeiladu pwerdai niwclear yn rhai a gadwyd yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU, nid oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru o blaid adeiladu pwerdai niwclear newydd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru bellach o blaid gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli eisoes, er enghraifft, y cynigion ar gyfer gorsaf bŵer Wylfa Newydd. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n briodol, felly, ein bod yn ailedrych ar safbwynt Llywodraeth Cymru ar waredu'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu gan orsafoedd pŵer fel Wylfa Newydd.

- O dan y Gyfarwyddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol (Cyfarwyddeb 2011/70/Euratom), a ddaeth i rym yn 2011, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sefydlu a chynnal polisi cenedlaethol ar reoli gwastraff ymbelydrol mewn modd diogel a chyfrifol. Rhaid rhoi'r polisi hwnnw ar waith drwy raglen genedlaethol, a chyflwyno adroddiad am y polisi hwnnw a'r rhaglen honno i'r Comisiwn erbyn 23 Awst 2015. Mae rheoli gwastraff ymbelydrol yn cynnwys dulliau o gael gwared arno, a chan nad ydym wedi mynegi barn bendant y naill ffordd neu'r llall a chan nad oes gennym bolisi yma yng Nghymru ar reoli GUA yn y tymor hir, mae'n bosibl nad ydym yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

- Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn ailddechrau'r prosesau i ddod o hyd i leoliadau ar gyfer cyfleusterau gwaredu daearegol yn Lloegr, ac mae hynny'n rhoi cyfle inni ystyried a fyddai'n briodol inni adolygu'n polisi yma yng Nghymru.

[8] DECC, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon: *Review of the Siting Process for a Geological Disposal Facility*. Medi 2013.

- Ym mis Gorffennaf 2013, cadarnhaodd CoRWM ei fod o blaid gwaredu daearegol, a'i fod o'r farn mai dyna'r opsiwn gorau ar gyfer rheoli GUA yn y tymor hir. Drwy wneud hynny, ategodd yr argymhelliad cyntaf yn adroddiad CoRWM 1, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2006 (gweler paragraff 6 uchod a throednodyn 2). Yn benodol, cadarnhaodd CoRWM yr argymhelliad cyntaf yn ei adroddiad i'r Llywodraeth yn 2006 (gweler troednodiadau 1 a 2):

  *"Within the present state of knowledge, CoRWM considers geological disposal to be the best available approach to the long-term management of all the material categorised as waste in CoRWM's inventory when compared with the risks associated with other methods of management. The aim should be to progress to disposal as soon as practicable, consistent with developing and maintaining public and stakeholder confidence*."

- Cafodd polisi presennol Llywodraeth Cymru ei lunio yn 2008. Mae adolygu polisïau o bryd i'w gilydd yn arfer da, a hynny er mwyn sicrhau bod y polisïau hynny'n adlewyrchu unrhyw amgylchiadau newydd a'u bod yn parhau'n berthnasol.

**Cwestiynau**

**C1**. A ddylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi presennol ar waredu GUA?

Rhowch resymau dros eich ateb.

**C2**. Gwnaeth CoRWM lawer iawn o waith cyn argymell yn ei adroddiad yn 2006 y dylid gwaredu gwastraff o'r fath yn ddaearegol, a chadarnhaodd yr argymhelliad hwnnw yn 2013. O ystyried hynny, pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu adolygu ei pholisi presennol, a ddylai gyfyngu'r opsiynau ar gyfer gwaredu GUA i waredu daearegol yn unig?

Rhowch resymau dros eich ateb.

**C3**. Os dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau gwaredu heblaw am waredu daearegol, pa opsiynau eraill y dylai eu hystyried?

Rhowch resymau dros eich ateb.

**C4**. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am bolisi Llywodraeth Cymru ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd?

**Y ffordd ymlaen**

19. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Bydd yn gwneud hynny er mwyn sichrau bod gwastraff ymbelydrol yn ddiogel yn y tymor hir, bod fframwaith sy'n addas at ddibenion Cymru yn cael ei roi ar waith, a bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau yn y maes hwn. Bydd

Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r cais hwn am wybodaeth, ynghyd â'r pwyntiau a godwyd ym mharagraff 18 uchod. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu adolygu ei pholisi presennol ar GUA, bydd yn gwneud hynny mewn ffordd gynhwysol a thryloyw, gan gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu, ar ôl y broses honno, ei bod am fabwysiadu polisi gwaredu daearegol, bydd yn gweithredu'r polisi hwnnw gan weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau hynny a allai fod yn barod i gymryd y gwastraff, a chan sicrhau bod iechyd pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu yn y tymor hir.

**Ffurflen Ymateb**

**i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / Rhif Ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: